Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

Taflen ffeithiau ADUS

Beth yw Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)?

Un broses adolygu sy'n cynnwys pob adolygiad yng Nghymru. Mae angen i'r meini prawf ar gyfer cynnal ADUS fodloni un o'r canlynol:

- Adolygiad Ymarfer Oedolion neu Blant
- Adolygiad Lladdiad Domestig
- Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl
- Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol

Beth yw **camau'r** ADUS?

Wedi digwyddiad, caiff yr achos ei atgyfeirio at y Bwrdd Diogelu.

Mae'r Grŵp Adolygu Achosion yn penderfynu a yw'r meini prawf ar gyfer cynnal ADUS wedi'u bodloni.

Os yw'r meini prawf wedi'u bodloni, caiff Cadeirydd ac Adolygydd/Adolygwyr eu dewis o'r Rhestr o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy a chaiff panel amlasiantaethol ei sefydlu.

Caiff y sawl sy'n destun yr adolygiad, y teulu a/neu'r unigolion allweddol gyfleoedd i ymwneud â'r broses adolygu.

Caiff llinell amser amlasiantaethol ei llunio gan y panel.

Cynhelir Digwyddiad Dysgu, gyda gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r sawl sy'n destun yr adolygiad yn bresennol.

Caiff adroddiad ac argymhellion eu gwneud gan yr Adolygydd/Adolygwyr yn seiliedig ar y dysgu a nodwyd.

Caiff cynllun gweithredu ei lunio i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Rhaid i'r Bwrdd Diogelu gytuno ar yr adroddiad a'r cynllun gweithredu.

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd, ei anfon i Hwb Cydgysylltu ADUS a'r Swyddfa Gartref (pan fo angen) a'i ychwanegu at Storfa Ddiogelu Cymru.

Mae canllawiau ar gael yn y Canllawiau Statudol ar Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (llyw.cymru)

Beth yw **diben** ADUS?

Mae ADUS yn dod ag asiantaethau ac unigolion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad i mewn i amgylchedd dysgu diogel er mwyn gwneud y canlynol:

- deall yn well yr hyn a ddigwyddodd yn ystod digwyddiad a pham
- deall yn well beth oedd effaith y camau gweithredu a gymerwyd gan sefydliadau
- ystyried a allai camau gweithredu gwahanol fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i'r plentyn neu'r oedolyn a oedd yn wynebu risg
- nodi unrhyw gyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol
- darparu cynllun gweithredu clir ar sut i wella'r gwasanaethau a ddarperir

Beth yw **Storfa Ddiogelu Cymru**?

Mae'n system unigryw sy'n defnyddio gwyddorau cymdeithasol a methodolegau cyfrifiadureg. Ei nod yw gwella arferion diogelu gweithwyr proffesiynol yn y dyfodol. Mae'r holl adroddiadau ADUS sydd wedi'u cwblhau yn cael eu storio yma, yn ogystal ag adroddiadau adolygiadau blaenorol.

Mae'r Storfa yn galluogi ymchwilwyr ac ymarferwyr i gael gafael ar ddysgu newydd am drais, camdriniaeth, pobl agored i niwed a diogelu gyda'r bwriad o wella arferion ar sail Cymru gyfan, gan leihau'r risg o'r un peth yn digwydd eto a diogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Sut bydd y **sawl sy'n destun yr adolygiad/teulu/unigolion allweddol** yn cymryd rhan yn yr ADUS?

Mae cyfranogiad y dioddefwr, y teulu a'r unigolion allweddol, er yn wirfoddol, yn rhan ganolog o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Rhaid rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr adolygiad a'u trin fel rhanddeiliaid allweddol pan fo hynny'n briodol ac yn bosibl. Mae eu safbwyntiau a'u profiadau yn hanfodol i ddatblygu dysgu yn ystod adolygiad.

Sut bydd ADUS yn **gwella'r** ffordd y caiff adolygiadau eu **cynnal**?

Bydd yn dod â'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn sawl adolygiad i ben, gan leihau eu trawma.

Galluogi rhannu gwybodaeth, argymhellion a dysgu thematig er mwyn diogelu cenedlaethau'r dyfodol, gan ddarparu proses fwy effeithiol ac effeithlon.

Bydd llunwyr polisi, academyddion, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru. Bydd adroddiadau ADUS yn helpu i wella'r sylfaen dystiolaeth i sicrhau newid mewn ymarfer.

Gwell goruchwyliaeth genedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru o argymhellion a nodir yn ystod adolygiadau gan ddefnyddio rhwydwaith cymorth ADUS. Bydd hyn yn berthnasol i wasanaethau datganoledig a gwasanaethau heb eu datganoli yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | LLYW. CYMRU